
Addysg, Cyflogaeth a Sgiliau: Y Cynghorydd Sarah Merry

UCHELGAIS PRIFDDINAS



Rydyn ni'n gwybod y bydd addysg wych yn helpu pawb yng Nghaerdydd i gyrraedd eu llawn botensial. Bydd y Weinyddiaeth hon yn parhau i fuddsoddi yn ein hysgolion a'u gwella, ac yn sicrhau bod pob plentyn yn cael y cychwyn gorau posibl mewn bywyd.

Addysg hefyd yw un o'r llwybrau sicraf allan o dlodi, felly byddwn yn dyblu ein hymdrechion i sicrhau nad yw unrhyw blentyn yn cael ei adael ar ôl. Byddwn yn canolbwyntio ar gau'r bwloch cyrhaeddiad rhwng disgyblion o deuluoedd incwm isel, plant sy'n derbyn gofal, disgyblion sy'n cael eu haddysgu y tu allan i ysgol a disgyblion â Saesneg fel iaith ychwanegol.

Wrth i Gaerdydd dyfu dros yr 20 mlynedd nesaf, byddwn yn sicrhau ein bod yn bodloni'r galw am fwy o leoedd mewn ysgolion Cymraeg a Saesneg drwy ddarparu mwy o ysgolion a gwneud popeth yn ein gallu i ddenu, cadw a datblygu'r dalent addysgu orau. Wrth wneud hynny byddwn yn agor ein hysgolion i fwy o ddefnydd cymunedol, gan atgyfnerthu'r rôl bwysig y mae pob ysgol yn ei chwarae wrth galon ei chymuned.

Ni ddaw addysg i ben wrth gât yr ysgol. Os caiff pawb yn y ddinas fanteisio ar y swyddi a'r cyfleoedd sy'n cael eu creu yn ein heconomi gynyddol a helpu'r ddinas i ddod yn fwy cystadleuol, rhaid i bawb sy'n gadael yr ysgol allu symud i addysg bellach, cyflogaeth neu hyfforddiant. Gwyddwn hefyd mai addysg yw un o brif sbardunau llwyddiant economaidd, felly rydym yn ymrwymedig i weithio gyda chymuned fusnes Caerdydd i sicrhau bod system sgiliau'r ddinas i blant ac oedolion yn bodloni anghenion busnes, nawr ac yn y dyfodol.

Byddwn yn:

- Sicrhau bod **pob plentyn yng Nghaerdydd yn mynd i ysgol dda neu ragorol.**
- **Cau'r bwloch cyrhaeddiad mewn ysgolion fel na fydd yr un plentyn yn cael ei adael ar ôl.**
- **Buddsoddi mewn gwella ac ehangu ein hysgolion** i fodloni anghenion poblogaeth sy'n tyfu'n gyflym a chymryd camau clir i fynd i'r afael â gwaith cynnal a chadw hanesyddol sydd heb ei wneud.
- **Cefnogi datblygiad y cwricwlwm cenedlaethol newydd**, gyda ffocws ar sgiliau allweddol fel **llythrennedd digidol.**
- **Sicrhau bod y gwasanaethau cymorth** rydyn ni'n eu cynnig i ysgolion o ansawdd a gwerth uchel.
- **Cyflawni 'Ymrwymiad Caerdydd' a hyrwyddo prentisiaethau ieuenctid**, gan sicrhau bod pob plentyn yn cael mynediad i hyfforddiant, cyflogaeth neu gyfleoedd addysg pellach ar ôl gadael yr ysgol.
- **Rhoi ysgolion wrth wraidd ein cymunedau**, gan atgyfnerthu cysylltiadau rhwng ysgolion a'u hardaloedd lleol.
- **Gweithio tuag at fod yn 'Ddinas Plant' UNICEF** fel rhan o raglen bartneriaeth sy'n canolbwyntio ar hawliau'r plentyn.
- Sicrhau bod **addysg yn berthnasol i bawb** drwy weithio gyda phob partner ar draws y ddinas – gan gynnwys busnesau, rhieni a llywodraethwyr ysgol – i gael y gorau i Gaerdydd.
- Cefnogi'r Undeb Credyd i ddarparu "project cynilo" yn Ysgolion Caerdydd sy'n annog cynilo a hyrwyddo llythrennedd ariannol.